**Rhif: WG44941**

Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

# Adolygiad Cyhoeddus 2022 - Band Eang

## Cais am Wybodaeth

Dyddiad cyhoeddi: 8 Ebrill 2022
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 6 Mai 2022

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Pwrpas yr Adolygiad Cyhoeddus hwn yw cadarnhau pa adeiladau yng Nghymru sydd heb strwythur band eang Mynediad y Genhedlaeth Nesaf (NGA) sy'n gallu darparu 30 Mb yr eiliad o leiaf i adeiladau, a/neu wasanaethau Gigabit sy'n darparu o leiaf 1,000Mbps, neu lle nad oes unrhyw gynlluniau i ddarparu seilwaith o'r fath dros y tair blynedd nesaf.<br><br>Mae'r broses hon yn galluogi pob parti â buddiant i roi sylwadau ar y prosesau dosbarthu a mapio adeiladau a luniwyd yn sgil Adolygiad o'r Farchnad Agored (OMR) 2021, lle rhoddodd darparwyr wybodaeth am eu darpariaeth rhwydwaith NGA ac sy'n gallu delio â gigabits presennol a/neu a gynllunnir.<br><br>Y prif reswm dros gynnal Adolygiad Cyhoeddus yw galluogi Llywodraeth Cymru i ddiweddaru ei hardal ymyrryd bresennol a gafodd ei chaffael o dan Gynllun Band Eang Cenedlaethol (NBS) BDUK 2016. At hynny, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn bwriadu dilysu canlyniad yr OMR er mwyn cyfrannu at raglen Gigabit Prosiect Llywodraeth y DU a'r ymyriadau posibl yn y dyfodol gan Lywodraeth Cymru a Building Digital UK (BDUK) o dan y rhaglen hon.<br><br>Yn ogystal â'r Adolygiad Cyhoeddus hwn sy'n cynnwys pob adeilad yng Nghymru, mae hefyd yn cynnwys nifer fach o safleoedd sydd ar y ffin â Swydd Amwythig. **<u>Ni fydd</u>** yr UPRN hyn yn Swydd Amwythig yn rhan o unrhyw gaffael arfaethedig a arweinir gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae BDUK yn gofyn am wybodaeth gan gyflenwyr ynghylch unrhyw ddarpariaeth bresennol a / neu arfaethedig sydd ganddynt mewn perthynas â'r UPRN penodol hyn yn Swydd Amwythig . |
| **Sut mae ymateb** | Anfonwch neges e-bost i BandEang.Broadband2021@gov.wales wedi'i nodi "Ymateb i'r Adolygiad Cyhoeddus" fel y disgrifir yn Adran 6. |
| **Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** | **Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**<br><br>Wrth lofnodi telerau'r drwydded gysylltiol, bydd cyflenwyr sy'n cofrestru i ymateb yn gallu cael set ddata o safleoedd yng Nghymru, fel yr amlinellir hynny yn Adran 6 isod. |

| | |
|---|---|
| | Mae modd gweld gwybodaeth am broses yr Adolygiad Cyhoeddus ym Mhorth Ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru drwy fynd i'r cyfeiriad gwe canlynol:<br><br>https://llyw.cymru/band-eang-adolygiad-cyhoeddus-2022 |
| **Manylion cyswllt** | Os oes gennych chi gwestiynau am broses yr Adolygiad Cyhoeddus, cysylltwch â thîm yr Adolygiad drwy anfon neges e-bost i:<br><br>BandEang.Broadband2021@gov.wales |
| **This document is also available in English.** | https://gov.wales/broadband-public-review-2022 |

## Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data dros unrhyw ddata personol rydych yn eu darparu fel rhan o'ch ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau gwybodus ynglŷn â sut i arfer eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau pellach. Pan fydd Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, efallai y bydd trydydd parti achrededig yn cael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn (ee sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghorol). Dim ond o dan gontract y gwneir unrhyw waith o'r fath. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn pennu gofynion llym ar gyfer prosesu data personol a'u cadw'n ddiogel.

I ddangos bod yr ymgynghoriad wedi cael ei gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw neu gyfeiriad gael ei gyhoeddi, rhowch wybod i ni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn eu golygu cyn eu cyhoeddi.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, bydd yr adroddiadau cyhoeddedig hyn yn cael eu cadw am gyfnod amhenodol. Bydd unrhyw ddata sydd gan Lywodraeth Cymru amdanoch fel arall yn cael eu cadw am dair blynedd fan bellaf.

## Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych chi hawl:

- i gael gwybod am y data personol sy'n cael eu cadw amdanoch chi, ac i gael gweld y data hynny
- i fynnu ein bod yn cywiro gwallau yn y data hynny
- i wrthwynebu neu atal prosesu (mewn rhai amgylchiadau penodol)
- i'ch data gael eu 'dileu' (mewn amgylchiadau penodol)
- i gludo data (mewn amgylchiadau penodol)
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael mwy o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw a'r ffordd mae'n cael ei defnyddio, neu os ydych chi am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad GDPR, defnyddiwch y manylion cyswllt isod:

Swyddog Diogelu Data
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ

e-bost:
Data.ProtectionOfficer@gov.wales

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r
Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113
Gwefan: https://ico.org.uk/

# Mynegai


1. Cyflwyniad 1

2. Gofynion Cymhwystra Allweddol ar gyfer Cymhorthdal 2

3. Canlyniad Adolygiad o'r Farchnad Agored (OMR) Cymru 2021 4

4. Pwrpas y Cais am Wybodaeth hwn mewn perthynas â'r Adolygiad Cyhoeddus 6

5. Dull Caffael a Masnachol Prosiect Gigabit 8

6. Cymryd Rhan / Ymateb i'r Adolygiad Cyhoeddus hwn 9

**Ymatebion gan drigolion, busnesau a rhanddeiliaid eraill** 10

**Ymatebion gan Awdurdodau Lleol a Chyrff Cyhoeddus** 12

**Ymatebion gan gyflenwyr** 13

7. Ymateb i Ddata 13

8. Gofynion Cyflwyno 15

**Tystiolaeth i ddangos sut mae buddsoddiadau a gynlluniwyd yn hyfyw** 15

9. Dyddiad Dychwelyd 16

**Atodiad A: Fformat Cyflwyno Data** 17

**Atodiad B: Tystiolaeth Ategol** 25

**Atodiad C: Diffiniad o Dechnoleg** 28

**Atodiad D: Mapiau i ddangos ardal yr ymyriad** 30

**Atodiad E – Deddfau a Biliau a gyflwynwyd i'r Cynulliad â'r costau yn 2017-18 Rheoli Cymhorthdal** 33

**Atodiad F: Geirfa** 34

# Adolygiad Cyhoeddus Llywodraeth Cymru

## 1. Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen â'r gwaith o gyflwyno Cysylltiad Ffeibr i'r Adeilad (FTTP) sy'n gallu delio â gigabits i ardal ymyrryd ledled Cymru sy'n cynnwys tua 39,000 o adeiladau yn Lot 1 (Gogledd Cymru), Lot 2 (Dwyrain Cymru) a Lot 3 (De-orllewin a'r Cymoedd) gan ddefnyddio £56m o gymhorthdal cyhoeddus gan Lywodraeth Cymru, cyllid yr Undeb Ewropeaidd a rhywfaint o gyllid ychwanegol gan Lywodraeth y DU.

Cafodd yr ardal ymyrryd bresennol ei goleuo'n wreiddiol gan Adolygiad o'r Farchnad Agored (OMR) a gynhaliwyd yn 2017 ynghyd ag ymarfer adnewyddu dilynol a gynhaliwyd yn 2019, a chafodd ei chaffael o dan Gynllun Band Eang Cenedlaethol BDUK 2016. Mae'r cyfnod dilysrwydd tair blynedd ar gyfer data blaenorol yr Adolygiad wedi dod i ben erbyn hyn, felly cynhaliodd Llywodraeth Cymru Adolygiad o'r Farchnad Agored 2021 i sefydlu a yw'r data a ddarparwyd yn flaenorol gan gyflenwyr yn 2017 a 2019 wedi newid yn sylweddol. Bydd hyn yn galluogi Llywodraeth Cymru i ddeall a oes angen gwneud unrhyw addasiadau i'r ardal ymyrryd a'r adeiladau sy'n cael eu targedu ynddi.

Yn ogystal â chefnogi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr ardal ymyrryd uchod, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cefnogi uchelgais Llywodraeth y DU i ddarparu band eang sy'n gallu delio â gigabits ledled y wlad cyn gynted â phosibl. Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo £5bn i'r rhannau mwyaf anodd eu cyrraedd o'r wlad, gan sicrhau bod pob rhan o'r DU yn gallu elwa. Bydd hyn yn cael ei wario drwy becyn o ymyriadau cyd-gefnogol cydgysylltiedig, sy'n cael eu galw gyda'i gilydd yn Brosiect Gigabit. Felly, er mwyn cyflawni hyn, mae Llywodraeth Cymru a Building Digital UK (BDUK) yn bwriadu sicrhau darpariaeth bellach yn y dyfodol i dargedu ardaloedd 'gwyn' Gigabit ledled Cymru.

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru yr Adolygiad o'r Farchnad Agored (OMR) rhwng 24 Awst 2021 a 8 Hydref 2021 i ddeall gan gyflenwyr a oedd unrhyw fuddsoddiad presennol neu arfaethedig dros y tair blynedd nesaf (a thu hwnt, os oedd ar gael) mewn seilwaith band eang (band eang Mynediad y Genhedlaeth Nesaf, gwibgyswllt a band eang sy'n gallu delio â gigabits) ledled Cymru.

Felly, mae'r broses Adolygiad Cyhoeddus hon yn ceisio dilysu canlyniad yr Adolygiad o'r Farchnad Agored a gwaith mapio Llywodraeth Cymru i sicrhau ei bod yn cynrychioli'n gywir y wybodaeth a ddarparwyd gan gyflenwyr yn ystod yr Adolygiad o'r Farchnad Agored ac i sicrhau bod y meysydd cywir yn cael eu targedu ar gyfer unrhyw fuddsoddiad gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol.

**<u>Cynnwys Adeiladau yn Swydd Amwythig</u>**

Dylai cyflenwyr nodi y gallai'r ffiniau Lot / gwlad penodol (ac ardaloedd ymyrryd) sydd ar waith ar hyn o bryd ar gyfer y Prosiect Gigabit fod yn hyblyg yn ystod y broses OMR, yr Adolygiad Cyhoeddus a'r prosesau Ymgysylltu â'r Farchnad Cyn-caffael er mwyn sicrhau y caffael gorau posibl ar gyfer y farchnad. Pan fydd hyn yn digwydd, bydd Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn sicrhau ei fod yn cael ei gyfleu mewn ffordd dryloyw er mwyn parhau i fod yn gyson ag egwyddorion y Cynllun Seilwaith Gigabit (GIS). Ers i Adolygiad o'r Farchnad Agored Cymru ddod i ben ar 8fed Hydref 2021, mae nifer fach o adeiladau nad oeddent wedi cael eu cynnwys yn OMR Prosiect Gigabit ac Adolygiad Cyhoeddus Swydd Amwythig (Lot 25) bellach wedi cael eu cynnwys yng nghwmpas Adolygiad Cyhoeddus Cymru.

Ni chafodd yr UPRN newydd hyn ar y ffin â Swydd Amwythig eu cynnwys yn wreiddiol fel rhan o ddatganiad llinell sylfaen OMR Cymru 2021. Y rheswm am hyn yw bod dull BDUK o ymdrin ag ymgynghoriadau ynghylch seilwaith sy'n gallu delio â gigabits ledled y DU yn seiliedig ar Ardaloedd Cyfnewid (EA) rhwydweithiau cyfathrebu presennol, ac mae'r EA hyn yn pontio'r ffin rhwng siroedd Cymru a Lloegr. Er bod pob UPRN yng Nghymru wedi cael ei gynnwys ym mhroses Adolygiad o'r Farchnad Agored ac Adolygiad Cyhoeddus dan arweiniad Llywodraeth Cymru, mae hyn wedi golygu bod yna EA yng Nghymru sy'n ymestyn i Swydd Amwythig nad oeddent yn Adolygiad Cyhoeddus neu Adolygiad o'r Farchnad Agored Swydd Amwythig dan arweiniad BDUK.

Er gwybodaeth **ni fydd** yr UPRN hyn yn Swydd Amwythig yn rhan o unrhyw gaffael arfaethedig a arweinir gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae BDUK yn gofyn am wybodaeth gan bob cyflenwr ynghylch unrhyw ddarpariaeth bresennol a/neu arfaethedig sydd ganddynt mewn perthynas â'r adeiladau penodol hyn yn Swydd Amwythig ac felly mae'r rhain wedi cael eu cynnwys fel rhestr UPRN ar wahân fel rhan o RFI Adolygiad Cyhoeddus Cymru.

Mae'r UPRN ychwanegol hyn yn Swydd Amwythig hefyd wedi cael eu cynnwys yn y tablau yn Adran 3 ac yn y mapiau ardaloedd ymyrryd a ddangosir yn Atodiad D (dangosir hyn mewn oren).

## 2. Gofynion Cymhwystra Allweddol ar gyfer Cymhorthdal[1]

Dangosir canlyniad yr Adolygiad Cyhoeddus hwn a'r Adolygiad blaenorol o'r Farchnad Agored yn nhermau adeiladau 'Gwyn', 'Llwyd', 'Du' a 'Dan Adolygiad'. Dim ond i adeiladau sydd wedi'u dynodi'n rhai 'Gwyn' y bydd Llywodraeth Cymru a BDUK yn rhoi cymhorthdal.

- **Gwyn** – ar gyfer Prosiect Gigabit, mae hyn yn dangos adeiladau heb seilwaith rhwydwaith gigabit, ac nid oes yr un yn debygol o gael ei ddatblygu o fewn tair blynedd. Mae Atodiad C yn y PR RFI yn darparu gwybodaeth am y dechnoleg sy'n 'gymwys' fel un sy'n gallu delio â gigabits. Ar gyfer ardal ymyrryd bresennol Llywodraeth Cymru sydd wedi'i chaffael o dan Arolwg 2016 mae hyn yn dangos adeiladau lle nad oes seilwaith rhwydwaith mynediad y genhedlaeth nesaf cymwys h.y., sy'n gallu darparu cyflymderau lawrlwytho o 30 Mbps o leiaf, ac nid oes yr un yn debygol o gael ei adeiladu o fewn tair blynedd.

- **Du** - eiddo gyda dau neu ragor o seilweithiau NGA neu gigabeit cymwys gan wahanol gyflenwyr ar gael, neu byddant yn cael eu darparu yn ystod y tair blynedd nesaf

[1] https://www.gov.uk/government/publications/project-gigabit-uk-subsidy-advice

- **Llwyd** - adeiladau sydd ag un seilwaith NGA neu gigabit cymwys gan un cyflenwr ar gael, neu fydd yn cael ei ddarparu yn ystod y tair blynedd nesaf

- **Dan Adolygiad** - adeiladau lle mae cyflenwyr wedi nodi darpariaeth band eang masnachol wedi'i chynllunio, ond lle mae'r cynlluniau hynny wedi cael eu barnu drwy'r Adolygiad o'r Farchnad Agored fel rhai a allai fod mewn perygl o beidio â chael eu cwblhau.

Bydd adeiladau sy'n cael eu categoreiddio fel rhai sydd Dan Adolygiad yn cael eu monitro a'u dilysu'n barhaus o fewn y cyfnod o dair blynedd. Gall Llywodraeth Cymru ofyn am ymrwymiad gan y cyflenwr bod cynnydd sylweddol yn cael ei wneud o fewn tair blynedd. Os bydd y cynlluniau masnachol hyn yn diflannu, bydd yr adeiladau hyn yn cael eu mapio fel rhai cymwys ac yn rhan o unrhyw ardal ymyrryd arfaethedig yn y dyfodol, ac felly'n gymwys i gael ymyriad drwy'r mesur cymorth hwn.

Mae Llywodraeth Cymru yn dosbarthu eiddo ar sail eu seilwaith band eang presennol neu arfaethedig, fel y nodir yn Atodiad B: Templed Tystiolaeth Ategol, Atodiad C: Diffiniad Technegol ac at ddibenion diweddaru'r ardal ymyrryd bresennol yn 2017 yng Nghymru, Canllawiau Technoleg NBS 2016[2]. Mae dadansoddiad data yr Adolygiad o'r Farchnad Agored a'r Adolygiad Cyhoeddus o hawliadau darpariaeth band eang cyflenwyr yn cael eu cynnal ar lefel UPRN (adeiladau).

Ar ôl i'r Adolygiad Cyhoeddus ddod i ben, os oes angen rhagor o wybodaeth neu esboniadau, bydd Llywodraeth Cymru yn gofyn Cwestiynau Egluro i gyflenwyr cyn penderfynu ar y dosbarthiad Gwyn / Llwyd / Du neu Dan Adolygiad terfynol ar gyfer adeiladau yng Nghymru. Ar gyfer yr UPRN ychwanegol yn Swydd Amwythig sy'n cael eu cynnwys fel rhan o RFI Adolygiad Cyhoeddus Cymru, yna bydd BDUK yn gofyn Cwestiynau Egluro i gyflenwyr ynghylch unrhyw ddarpariaeth honedig sy'n ymwneud â'r UPRN hyn a bydd yn cwblhau'r dosbarthiad Gwyn / Llwyd / Du / Dan Adolygiad terfynol.

## Beth yw gofynion "newid sylweddol"?

Mae Llywodraeth Cymru a BDUK hefyd yn mynnu y dylai ymyriadau cyhoeddus allu sicrhau 'newid sylweddol' mewn argaeledd band eang o'r hyn sydd ar gael ar hyn o bryd yn ogystal â rhwydweithiau credadwy sydd wedi'u cynllunio. Dangosir hyn gan:

- Yn gyffredinol, mae'n rhaid i gyflymder lawrlwytho gael ei ddyblu o leiaf a chyflymder lanlwytho yn sylweddol uwch o ganlyniad i'r ymyriad o'i gymharu â chyflymder lawrlwytho a lanlwytho presennol

- Mae buddsoddiadau newydd sylweddol yn cael eu gwneud yn y rhwydwaith band eang (h.y. buddsoddiadau sy'n gorfod cynnwys gwaith sifil a gosod elfennau goddefol newydd)

- Mae'r seilwaith newydd yn dod â galluoedd newydd sylweddol i'r farchnad o ran argaeledd gwasanaethau band eang, capasiti a chyflymder a/neu gystadleuaeth.

---

[2] 2016 NBS Tech Guidelines - GOV.UK (www.gov.uk)

Bydd y 'sylweddol' o ran argaeledd band eang yn cael ei gymharu â'r hyn sydd gan rwydweithiau presennol yn ogystal â rhwydweithiau credadwy sydd wedi'u cynllunio.

## 3. Canlyniad Adolygiad o'r Farchnad Agored (OMR) Cymru 2021

Dechreuodd Llywodraeth Cymru Adolygiad o'r Farchnad Agored ar gyfer Cymru ar 24 Awst 2021. Gallwch weld cyhoeddiad OMR yma:

Band Eang: arolwg o'r farchnad agored 2021 | LLYW.CYMRU

Nododd yr Adolygiad o'r Farchnad Agored y byddai'r ddarpariaeth fasnachol arfaethedig ar gyfer band eang sy'n gallu delio â NGA yn cyrraedd tua **1,431,309** o adeiladau o fewn y 3 blynedd nesaf ac y byddai felly'n gadael y **117,833** o adeiladau sy'n weddill heb fynediad at fand eang sy'n gallu delio â NGA a **117,564** eiddo arall fel rhai Dan Adolygiad.

Ar gyfer band eang sy'n gallu delio â gigabits, dywedodd yr OMR y byddai darpariaeth fasnachol wedi'i chynllunio
yn cyrraedd tua **681,950** o adeiladau o fewn y 3 blynedd nesaf ac felly'n gadael y **327,174** eiddo sy'n weddill heb fynediad at fand eang sy'n gallu delio â gigabits a **657,632** o adeiladau eraill fel rhai Dan Adolygiad.

Mae canlyniad Adolygiad o'r Farchnad Agored Cymru yn cael ei ddangos yn y mapiau rhyngweithiol canlynol ar gyfer NGA a gigabit, sydd ar gael drwy ddilyn y dolenni isod:

https://datamap.gov.wales/maps/open-market-review-2021-next-generation-access-bro/

https://datamap.gov.wales/maps/open-market-review-2021-gigabit-capable-broadband/

Gellir arddangos y mapiau rhyngweithiol i ddangos naill ai adeiladau neu godau post NGA neu gigabeit Gwyn (a ddangosir fel rhai coch ar y mapiau rhyngweithiol) neu adeiladau neu godau post heb fod yn wyn h.y. rhai a ddosbarthwyd fel rhai Dan Adolygiad (a ddangosir fel rhai glas ar y mapiau rhyngweithiol), Llwyd neu Ddu.

Lle defnyddiwyd data lefel cod post at ddibenion mapio yn unig, cawsant eu dosbarthu fel a ganlyn:

- Mae cod post yn un **Gwyn** os oes unrhyw adeiladau 'Gwyn' yn bresennol (dangosir y rhain fel rhai coch ar y mapiau rhyngweithiol); neu
- Mae cod post yn un Dan Adolygiad os oes unrhyw eiddo 'Dan Adolygiad' yn bresennol (dangosir y rhain mewn glas ar y mapiau rhyngweithiol); neu
- Mae cod post yn un **Du** os yw pob adeilad yn y cod post yn cael ei ddosbarthu'n 'Ddu'; neu
- Mae cod post yn **Llwyd** os yw pob adeilad yn 'llwyd' neu os oes cymysgedd o adeiladau 'Llwyd' a 'Du'

- Mae cod post yn oren os nad oes data ar gael

At ddibenion cyflwyno yn unig, ac yn ychwanegol i'r mapiau rhyngweithiol ar gyfer NGA a gigabeit, mae mapiau ar lefel cod post o'r ardaloedd drafft ar gyfer ymyriad gigabit a NGA yng Nghymru ar gael yn **Atodiad D**. (DS Dim ond adeiladau sydd wedi'u dynodi'n rhai Gwyn y bydd Llywodraeth Cymru a BDUK yn darparu cymhorthdal – ni fydd codau post yn cael eu defnyddio i bennu ardaloedd ymyrryd ar gyfer cymhorthdal).

Ar ben hynny, mae'r ardaloedd ymyrryd cymwys arfaethedig ar gyfer yr UPRN ychwanegol yn Swydd Amwythig hefyd yn cael eu dangos mewn map ar wahân yn Atodiad D. Mae'r UPRN newydd hyn yn cael eu dangos mewn oren yn y mapiau.

Yn olaf, mae rhestr cod post cysylltiedig hefyd wedi cael ei chyhoeddi ochr yn ochr â'r ddogfen hon ac mae'n dangos y dosbarthiadau Cymhorthdal (naill ai NGA neu Gigabit) a bennwyd ar gyfer pob cod post yng Nghymru. Mae rhestr cod post ar wahân hefyd wedi cael ei chyhoeddi fel rhan o'r Adolygiad Cyhoeddus hwn ar gyfer yr adeiladau hynny yn Swydd Amwythig.

Mae data cyflenwyr a gyflwynwyd yn ystod yr Adolygiad o'r Farchnad Agored wedi cael ei ymgorffori yng nghanlyniadau'r Adolygiad o'r Farchnad Agored gan ddefnyddio methodoleg sy'n diogelu data cyflenwyr sy'n fasnachol sensitif.

Mae canlyniad yr Adolygiad o'r Farchnad Agored yn cael ei grynhoi o ran codau post ac adeiladau NGA a Gigabit 'Gwyn', 'Llwyd', 'Du', 'Oren' a 'Dan Adolygiad' fel sy'n cael ei ddangos yn y tablau isod.

Tabl 1: Dosbarthiad Gigabit

| Dosbarthiad Cod Post | Nifer y Codau Post | Nifer yr Adeiladau Gigabit Du | Nifer yr Adeiladau Gigabit Llwyd | Nifer yr Adeiladau Gigabit Dan Adolygiad | Nifer yr Adeiladau Gigabit Gwyn | Nifer yr Adeiladau Gigabit Oren |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwyn | 37,191 | 28,170 | 121,232 | 188,841 | 327,174 | 69 |
| Dan Adolygiad | 33,145 | 11,050 | 113,757 | 468,791 | 0 | 82 |
| Llwyd | 19,140 | 35,177 | 330,182 | 0 | 0 | 67 |
| Du | 1,975 | 42,382 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Oren | 349 | 0 | 0 | 0 | 0 | 3,494 |
| **Cyfanswm** | **91,800** | **116,779** | **565,171** | **657,632** | **327,174** | **3,712** |

Tabl 2: Dosbarthiad NGA

| Dosbarthiad Cod Post | Nifer y Codau Post | Nifer yr Adeiladau NGA Du | Nifer yr Adeiladau NGA Llwyd | Nifer yr Adeiladau NGA Dan Adolygiad | Nifer yr Adeiladau NGA Gwn | Nifer yr Adeiladau NGA Oren |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwyn | 21,680 | 44,879 | 196,143 | 41,329 | 117,883 | 65 |
| Dan Adolygiad | 12,663 | 14,322 | 133,269 | 76,235 | 0 | 75 |
| Llwyd | 47,526 | 125,646 | 710,854 | 0 | 0 | 73 |
| Du | 9,582 | 206,196 | 0 | 0 | 0 | 5 |
| Oren | 349 | 0 | 0 | 0 | 0 | 3,494 |
| **Cyfanswm** | **91,451** | **391,043** | **1,040,266** | **117,564** | **117,883** | **3,712** |

Mae'n bosibl darparu rhestr UPRN i gyflenwyr (ar gais ac yn amodol ar y cytundebau rhannu data perthnasol sydd ar waith), sy'n dangos yr adeiladau sydd wedi cael eu dynodi'n rhai 'Gwyn' a 'Dan Adolygiad' ar ôl yr OMR.

Cysylltwch â BandEang.Broadband2021@gov.wales i ofyn am y wybodaeth hon.

## 4. Pwrpas y Cais am Wybodaeth hwn mewn perthynas â'r Adolygiad Cyhoeddus

**Mae'r Adolygiad Cyhoeddus hwn yn diffinio'r ardaloedd cymwys arfaethedig, fel y pennwyd yn ystod yr Adolygiad o'r Farchnad Agored, er mwyn galluogi'r holl randdeiliaid sydd â buddiant (gan gynnwys y cyhoedd, busnesau, darparwyr gwasanaethau rhyngrwyd a gweithredwyr seilwaith band eang) i roi sylwadau ar y cynigion hynny.**

Mae canlyniad yr OMR yn cael ei ddangos yn y mapiau rhyngweithiol, sydd ar gael drwy ddilyn y dolenni isod:

https://datamap.gov.wales/maps/open-market-review-2021-next-generation-access-bro/

https://datamap.gov.wales/maps/open-market-review-2021-gigabit-capable-broadband/

Yn ogystal â'r mapiau gigabit a NGA rhyngweithiol uchod, mae'r rhestrau cod post cysylltiedig ar gyfer Cymru a Swydd Amwythig hefyd wedi cael eu cyhoeddi ochr yn ochr â'r ddogfen RFI hon yma:


https://llyw.cymru/band-eang-adolygiad-cyhoeddus-2022

Fel rhan o'r Adolygiad Cyhoeddus hwn, bydd Llywodraeth Cymru yn gofyn am ac yna'n gwerthuso unrhyw ymatebion pellach er mwyn dilysu cymhwysedd yr adeilad ar gyfer cymhorthdal cyhoeddus. Yn ystod yr ymarfer gwerthuso, gall Llywodraeth Cymru ymgysylltu â chyflenwyr


ymhellach i drafod a chadarnhau eu hawliadau darpariaeth. Fodd bynnag, dylid nodi, fel rhan o'r Adolygiad Cyhoeddus hwn, mai **dim ond** darpariaeth honedig cyflenwyr sy'n ymwneud â darpariaeth **o fewn ffin Cymru** y bydd Llywodraeth Cymru yn eu hasesu. Bydd cyflenwyr sydd â hawliadau darpariaeth (naill ai'n rhai presennol neu wedi'u cynllunio) yn Swydd Amwythig yn cael eu prosesu a'u gwerthuso gan BDUK. O ganlyniad, os oes gan gyflenwyr hawliadau am ddarpariaeth yn Swydd Amwythig yn unig, bydd BDUK yn gofyn am unrhyw wybodaeth bellach neu dystiolaeth ategol ychwanegol sydd ei hangen. Os oes gan gyflenwyr hawliadau am ddarpariaeth yng Nghymru a Swydd Amwythig, efallai y bydd cyflenwyr yn derbyn cwestiynau am eglurhad gan Lywodraeth Cymru ynghylch eu darpariaeth rhwydwaith yng Nghymru a chwestiynau am eglurhad ar wahân gan BDUK ynghylch unrhyw ddarpariaeth yn Swydd Amwythig.

Yn dilyn y gwerthusiad, bydd Llywodraeth Cymru a BDUK yn gallu penderfynu pa safleoedd i'w cynnwys mewn unrhyw brosesau caffael Prosiect Gigabit yn y dyfodol. Mae'r siart llif isod yn dangos crynodeb o sut mae'r broses PR yn gweithio. Yn ogystal â hyn, bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn gallu penderfynu a oes angen gwneud unrhyw addasiadau i'r adeiladau sydd wedi'u targedu yn yr ardal ymyrryd bresennol sydd wedi'i chaffael o dan Gynllun Band Eang Cenedlaethol BDUK 2016 (NBS).

Mae'r siart llif isod yn dangos crynodeb o sut mae'r broses PR yn gweithio.




Bydd yr Adolygiad Cyhoeddus hwn yn cael ei gynnal dros gyfnod o fis o leiaf, ac ar ôl iddo ddod i ben bydd yn galluogi Llywodraeth Cymru i ddiweddaru ei hardal ymyrryd bresennol a chadarnhau cymhwysedd adeiladau posibl ar gyfer caffael o ran Prosiect Gigabit yn y dyfodol. Bydd rhagor o fanylion am brosesau caffael Prosiect Gigabit sy'n benodol i Gymru yn cael eu darparu ar ôl i'r Adolygiad Cyhoeddus hwn ddod i ben. Fodd bynnag, mae'r siart llif isod yn dangos trefn gyffredinol y prosesau, o'r Adolygiad o'r Farchnad Agored i gaffael, a fydd yn cael ei fabwysiadu gan Lywodraeth Cymru.




Bydd yr holl ymatebion ystyrlon i'r Adolygiad Cyhoeddus yn cael eu hystyried yn ofalus a, lle bo angen, yn cael eu defnyddio i dargedu'r ardal ymyrryd bresennol yng Nghymru yn ogystal â phenderfynu ar adeiladau cymwys ar gyfer caffael o ran Prosiect Gigabeit yng Nghymru yn y dyfodol. Dylid nodi, er bod Llywodraeth Cymru wedi cynnwys is-set o UPRN ar gyfer Swydd Amwythig yn yr Adolygiad Cyhoeddus hwn, ni fydd yr adeiladau hyn yn rhan o unrhyw gontractau na chaffael Prosiect Gigabit  yn y dyfodol sy'n cael eu rheoli gan Lywodraeth Cymru.

Bydd y mapiau ardal cymwys terfynol, ac adroddiad cryno sy'n cadarnhau manylion unrhyw newidiadau, yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru ar ôl i'r Adolygiad Cyhoeddus ddod i ben. Bydd y mapiau ardal cymwys terfynol, ac adroddiad cryno fydd yn cadarnhau manylion y newidiadau o ran yr is-set o adeiladau yn Swydd Amwythig, yn cael eu cyhoeddi gan BDUK ar wefan gov.uk ar ôl i'r cyfnod adolygu ddod i ben.

Ar ôl hynny, bydd yr adeiladau cymwys terfynol ar gyfer Cymru a'r is-set o adeiladau yn Swydd Amwythig wedyn yn cael eu cyflwyno i Ganolfan Cymhwysedd Cenedlaethol (NCC) BDUK i'w cymeradwyo yn erbyn Cyfundrefn Rheoli Cymhorthdal y DU. Felly bydd yr ymatebion a'r allbwn o'r Adolygiad Cyhoeddus yn helpu Llywodraeth Cymru a BDUK i fagu mwy o hyder bod unrhyw ymyriadau gigabeit arfaethedig yn y dyfodol yn digwydd mewn ardaloedd sy'n gymwys i gael cymhorthdal, h.y. ardaloedd nad ydynt yn fasnachol hyfyw ac sydd angen ymyrraeth gan y llywodraeth i fynd i'r afael â methiannau yn y farchnad.

# 5. Dull Caffael a Masnachol Prosiect Gigabit

Mae Llywodraeth y DU wedi ymgysylltu'n helaeth â'r farchnad yn gynnar mewn perthynas â chaffael ar gyfer ymyriadau. Mae'r ymgysylltu hwn wedi cynnwys ymgynghori ar ddyluniad y rhaglen, gwahanol feysydd targed posibl, manyleb dechnegol (gan gynnwys mynediad cyfanwerthol), mathau o gaffael a thelerau contract. Mae adborth gan gyflenwyr band eang a rhanddeiliaid eraill wedi cael ei ystyried ym mhob un o'r meysydd hyn.

Bydd prosesau caffael yn cael eu cynnal yn unol â Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 (PCR 2015). Mae'r dulliau caffael wedi'u dylunio i fynd i'r afael â maint y prosesau caffael unigol. Bydd y prosesau caffael yn cael eu cynnal mewn ffordd dryloyw ac anwahaniaethol.

## Caffael Gigabit sydd ar y gweill yng Nghymru

Bydd Llywodraeth Cymru yn cyllidebu swm priodol o arian cyhoeddus gan Raglen Prosiect Gigabit, ar sail nifer terfynol yr adeiladau cymwys sydd angen cymhorthdal yn ystod y cam caffael.

Bydd y gyllideb yn cael ei nodi yn nogfennau Gwahoddiad i Dendro Prosiect Gigabit, yn dilyn yr Adolygiad Cyhoeddus. Caiff manylion unrhyw gyfyngiadau ar ddefnyddio cymhorthdal cyhoeddus eu hesbonio yn nogfennau'r tendr. Bwriad Llywodraeth Cymru yw caffael datrysiadau sy'n gallu

delio â gigabits yng Nghymru – sy'n gallu cyrraedd cyflymder lawrlwytho o 1Gbps o leiaf – i'r adeiladau y nodwyd eu bod yn gallu cael cymhorthdal h.y. yr adeiladau hynny sydd wedi'u dynodi'n rhai Gigabeit Gwyn. **Nodwch, os gwelwch yn dda, y bydd y rhestr derfynol o'r adeiladau sydd o fewn cwmpas y cymhorthdal yn cael ei chyhoeddi yn y Gwahoddiad i Dendro, ac nid yw wedi'i chwblhau ar hyn o bryd.** Gall ardaloedd ymyrryd y Prosiect Gigabit terfynol fod yn is-set o'r adeiladau sydd wedi'u dynodi'n rhai Gigabit Gwyn yn yr asesiad cymhorthdal a byddant yn destun troshaenu, gan gynnwys ymyriadau gweithredol/ar y gweill eraill (e.e. Band eang cyflym iawn).

Ar ôl i'r Adolygiad Cyhoeddus ddod i ben ac ar ôl i Lywodraeth Cymru bennu ardal ymyrryd Prosiect Gigabit, bydd Gwahoddiad i Dendro yn cael ei gyhoeddi o fewn tua 6 mis drwy borth caffael, er mwyn i gyflenwyr wneud cais am y cyfle i gynnig darpariaeth band eang sy'n gallu delio â gigabits.

# 6. Cymryd Rhan / Ymateb i'r Adolygiad Cyhoeddus hwn

Nod Llywodraeth Cymru yw sicrhau bod y rhannau o Gymru sydd angen buddsoddiad gan y llywodraeth yn cael eu targedu'n gywir. Bydd pob cyfrannwr at yr Adolygiad Cyhoeddus hwn yn helpu i wneud y defnydd gorau posibl o gymhorthdal cyhoeddus i adeiladau ledled Cymru drwy alluogi unrhyw ddiweddariadau i'r ardal ymyrryd bresennol yng Nghymru yn ogystal â nodi'r safleoedd hynny a allai fod yn rhan o brosesau caffael Prosiect Gigabit yn y dyfodol. Felly, a fyddech cystal ag ymateb i'r Adolygiad Cyhoeddus hwn os oes gennych chi wybodaeth neu os ydych chi'n gallu darparu tystiolaeth ynghylch cywirdeb yr ardaloedd ymyrryd gigabit a NGA arfaethedig neu wybodaeth am ddosbarthiad yr adeiladau fel y dangosir hynny ar y mapiau rhyngweithiol Cymru yma:

https://datamap.gov.wales/maps/open-market-review-2021-next-generation-access-bro/

https://datamap.gov.wales/maps/open-market-review-2021-gigabit-capable-broadband/

Os ydych chi'n gyflenwr ac na wnaethoch ymateb i Adolygiad o'r Farchnad Agored Cymru 2021 yn ddiweddar a bod gennych ddarpariaeth rhwydwaith bresennol a/neu wedi'i chynllunio un ai yng Nghymru neu yn yr is-set o adeiladau yn Swydd Amwythig sydd hefyd wedi'u cynnwys fel rhan o'r ymarfer Adolygiad Cyhoeddus hwn, yna cyflwynwch eich hawliadau darpariaeth fel y gellir targedu cymhorthdal cyhoeddus yn fwy cywir, a bod modd osgoi gor-adeiladu seilwaith masnachol. Mae manylion ynghylch sut dylai cyflenwyr gyflwyno ymateb i'r Adolygiad Cyhoeddus hwn wedi'u hamlinellu yn 'Ymateb gan Gyflenwyr' yn ogystal ag yn Adran 7 isod. Os oes gan gyflenwyr gynlluniau credadwy sy'n ymestyn y tu hwnt i'r cyfnod pontio o dair blynedd, dylid cynnwys y rhain hefyd yn eich cyflwyniad i Lywodraeth Cymru. Ar gyfer cyflenwyr, dylai'r holl waith adeiladu presennol ac arfaethedig gael ei ategu gan dystiolaeth fanwl fel y nodir yn y Gofynion Cyflwyno yn Adran 8 y Llawlyfr hwn.

Sylwch y bydd y wybodaeth rydych chi'n ei rhoi yn eich ymateb i'r Adolygiad Cyhoeddus hwn yn cael ei thrin yn gyfrinachol, er efallai y bydd angen rhannu rhywfaint/y cyfan o'ch ymateb â'n hymgynghorwyr proffesiynol a/neu'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon/BDUK, Ofcom, a Changen Rheoli Cymhorthdal BEIS. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon i ddiffinio'r meysydd ymyrryd (yn unig) yn dilyn yr Adolygiad Cyhoeddus.

I gael gwybodaeth am beth i'w ddisgwyl pan fyddwch yn cysylltu â Llywodraeth Cymru, ac i ddarparu eich gwybodaeth bersonol i ni, darllenwch hysbysiad preifatrwydd Llywodraeth Cymru.

## Ymatebion gan drigolion, busnesau a rhanddeiliaid eraill

Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i gyflenwyr rannu eu darpariaeth NGA a band eang gigabit gyda ni, gan gynnwys unrhyw ddarpariaeth arfaethedig ar gyfer y tair blynedd nesaf a thu hwnt. Rydym bellach wedi dadansoddi a mapio'r data hwn drwy'r broses OMR a amlinellir yn Adran 3 ac rydym nawr yn gwahodd trigolion a busnesau yng Nghymru i wirio argaeledd band eang gigabit neu NGA yn eu hadeiladau.

Dim ond os gallwch chi weld gwallau yn y data ar gyfer eich adeilad mae'n rhaid i chi ymateb i'r Adolygiad Cyhoeddus hwn. Os hoffech chi ymateb, rydyn ni wedi amlinellu'r broses isod.

**Cam 1 – Pa wasanaeth band eang alla i ei gael eisoes?**


Yn gyntaf, edrychwch i weld pa fath o fand eang sydd gennych chi eisoes, fel NGA, gwibgyswllt neu gigabeit. Gallwch gadarnhau argaeledd band eang yn eich adeilad drwy ddefnyddio [gwiriwr band eang Ofcom.]

**Cam 2 – Sut alla i wirio a yw'r data ar gyfer fy adeilad yn gywir?**
Gan ddefnyddio'r data a gafwyd gan gyflenwyr yn ystod yr Adolygiad o'r Farchnad Agored, mae pob adeilad yng Nghymru wedi cael ei ddosbarthu ar sail ei allu i gael mynediad at naill ai fand eang NGA neu fand eang gigabit. Mae'r dosbarthiad hwn wedi'i amlinellu yn Adran 2. Mae Llywodraeth Cymru wedi plotio'r data hwn ar fapiau rhyngweithiol – un yn dangos darpariaeth NGA a'r llall yn dangos darpariaeth band eang sy'n gallu delio â gigabits.

https://datamap.gov.wales/maps/open-market-review-2021-next-generation-access-bro/

https://datamap.gov.wales/maps/open-market-review-2021-gigabit-capable-broadband/

Ar ôl i chi glicio ar naill ai'r ddolen i'r map rhyngweithiol ar gyfer NGA neu gigabeit, efallai y bydd angen i chi ddewis 'gweld yn y dangosydd map'. Yna dylai bob map lwytho fel mae'n ymddangos yn y llun isod




I'r ochr chwith ym mhob un o'r mapiau, dangosir yr haenau amrywiol. Yn y map NGA rhyngweithiol, dyma'r haenau a ddangosir:

- Adeiladau Gwyn – lle nad oes cyflymder band eang 30Mb yr eiliad ar gael neu lle na chynllunnir iddo fod ar gael yn ystod y 3 blynedd nesaf. Sylwch fod yr adeiladau Gwyn wedi'u marcio mewn coch er mwyn eu gwneud yn haws eu gweld ar y map rhyngweithiol.

- Adeiladau heb fod yn wyn – lle mae cyflymder band eang 30Mbps a mwy ar gael neu lle bwriedir iddo fod ar gael o fewn y 3 blynedd nesaf, ac adeiladau wedi cael eu categoreiddio fel rhai Du neu Lwyd neu adeiladau wedi cael eu dosbarthu fel rhai sydd Dan Adolygiad. Sylwch fod yr adeiladau Dan Adolygiad, h.y. yr adeiladau hynny lle mae cyflenwyr wedi rhoi gwybod am ddarpariaeth band eang masnachol wedi'i chynllunio, ond lle mae'r cynlluniau hynny wedi cael eu barnu drwy'r Adolygiad o'r Farchnad Agored fel rhai a allai fod mewn perygl o beidio â chael eu cwblhau, yn cael eu marcio'n las ar y map rhyngweithiol.

Yn y map gigabit rhyngweithiol, dyma'r haenau a ddangosir:

- Adeiladau Gwyn – lle nad oes cyflymder band eang 1,000Mbps+ ar gael neu lle na chynllunnir iddo fod ar gael yn ystod y 3 blynedd nesaf. Sylwch fod yr adeiladau Gwyn wedi'u marcio mewn coch er mwyn eu gwneud yn haws eu gweld ar y map rhyngweithiol.

- Adeiladau heb fod yn wyn – lle mae cyflymder band eang 1,000Mbps a mwy ar gael neu lle bwriedir iddo fod ar gael o fewn y 3 blynedd nesaf, ac adeiladau wedi cael eu categoreiddio fel rhai Du neu Lwyd neu adeiladau wedi cael eu dosbarthu fel rhai sydd Dan Adolygiad. Sylwch fod yr adeiladau Dan Adolygiad, h.y. yr adeiladau hynny lle mae cyflenwyr wedi rhoi gwybod am ddarpariaeth band eang masnachol wedi'i chynllunio, ond lle mae'r cynlluniau hynny wedi cael eu barnu drwy'r Adolygiad o'r Farchnad Agored fel rhai a allai fod mewn perygl o beidio â chael eu cwblhau, yn cael eu marcio'n las ar y map rhyngweithiol.

I'r dde o'r mapiau NGA a gigabit, mae bar chwilio (gweler wedi'i farcio'n las yn y llun uchod). Rhowch eich cod post neu gyfeiriad eich stryd ynddo a phwyso 'enter'. Byddwch nawr yn gweld map agos o'r ardal ble mae eich adeilad wedi ei leoli. Cliciwch ar eich adeilad ar y map i gael y data llawn. Bydd blwch yn ymddangos ar y dde yn dangos yr wybodaeth ganlynol:

- UPRN – dyma'r 'cyfeirnod adeilad unigryw' ar gyfer eich adeilad. Gwnewch nodyn o hwn os ydych chi'n bwriadu ymateb i'r Adolygiad Cyhoeddus hwn;
- Cyfeiriad – bydd hyn yn cynnwys rhif y stryd neu enw eich adeilad, y stryd lle mae eich adeilad wedi ei leoli, y dref lle mae eich adeilad a chod post eich eiddo
- Awdurdod Lleol – bydd hwn yn rhoi manylion yr Awdurdod Lleol lle mae eich adeilad wedi ei leoli
- Statws – y dosbarthiad ar gyfer eich eiddo, e.e. Gwyn, Llwyd, Du neu Dan Adolygiad.

Gwnewch yn siŵr bod statws eich adeilad yn gywir. Os oes rhywbeth yn anghywir neu fod dim modd dod o hyd i'ch cyfeiriad, ewch ymlaen i gam 3 i ymateb i'r Adolygiad Cyhoeddus.

**Cam 3 – Sut alla i ymateb i'r ymgynghoriad i roi gwybod am broblem gyda'r data ar gyfer fy eiddo?**

Ar gyfer cyflwyniadau gan drigolion neu fusnesau yng Nghymru, byddai Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar pe gallech gadarnhau'r canlynol:

- Enw'r sefydliad (os yw'n berthnasol)

- Cyfeiriad eich sefydliad neu gyfeiriad preswyl, gan gynnwys yr UPRN. Gallwch ddod o hyd i'ch UPRN ar y map rhyngweithiol a'i gopïo drwy ei amlygu, rhoi clic dde arno a dewis ei gopïo i'ch ymateb e-bost.
- Eich enw
- Swydd (os yn berthnasol)
- Rhif ffôn cysylltu
- Cyfeiriad e-bost
- Disgrifiad amlinellol o'r mater gyda data'r safle a / neu unrhyw wybodaeth berthnasol arall sydd gennych a fyddai, yn eich barn chi, yn ddefnyddiol i'r broses Adolygiad Cyhoeddus. Sylwch mai dim ond i roi gwybod am faterion sy'n ymwneud â'r dosbarthiad arfaethedig o ran lefel yr adeiladau y dylid ymateb i'r Adolygiad Cyhoeddus. Fel arall, os oes gennych chi gwestiynau cyffredinol am fynediad at fand eang yng Nghymru, defnyddiwch ein cyfleuster 'cysylltu â ni' i gael rhagor o wybodaeth.

Dylid wedyn anfon unrhyw ymatebion i'r Adolygiad Cyhoeddus hwn drwy e-bost at:

BandEang.Broadband2021@gov.wales a'i farcio fel 'Ymateb i'r Adolygiad Cyhoeddus'

## Ymatebion gan Awdurdodau Lleol a Chyrff Cyhoeddus

Mae Llywodraeth Cymru yn gofyn i Awdurdodau Lleol a chyrff cyhoeddus yng Nghymru ddarparu mewnbwn ar gyfer yr Adolygiad Cyhoeddus hwn – mewn perthynas â sut mae cynlluniau band eang a ariennir gan y cyhoedd y maent yn rhan ohonynt (neu y maent yn ymwybodol ohonynt) yn effeithio ar y canfyddiadau a nodir yn Adran 3. Felly, gwahoddir Awdurdodau Lleol a chyrff cyhoeddus i archwilio'r wybodaeth yn y map rhyngweithiol a ddarperir. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gallu darparu data ar lefel adeiladau ar gyfer Awdurdodau Lleol yng Nghymru at ddibenion ymateb i'r Adolygiad Cyhoeddus hwn. Fodd bynnag, er mwyn cael y data bydd angen i chi lenwi, llofnodi a dychwelyd Cytundeb Trwydded Defnyddiwr Geo-ofodol y Sector Cyhoeddus (PSGA) y gellir ei lwytho i lawr oddi ar wefan ymgynghori Llywodraeth Cymru:

https://llyw.cymru/band-eang-adolygiad-cyhoeddus-2022

Ar ôl darparu'r data lefel adeiladau, gofynnwn i Awdurdodau Lleol ddarparu'r atebion canlynol os ydynt yn ymateb i'r Adolygiad Cyhoeddus:

1. Ydych chi'n ymwneud â, neu'n ymwybodol o, unrhyw fuddsoddiad seilwaith presennol neu arfaethedig mewn band eang NGA a/neu Gigabit nad yw efallai wedi cael ei gynnwys yn yr ardaloedd ymyrryd arfaethedig?
2. Os felly, allwch chi ddarparu tystiolaeth o'r seilwaith rhwydwaith presennol neu a gynllunnir, gan gynnwys y canlynol (ond heb fod yn gyfyngedig i hynny):
   - Data lefel UPRN sy'n ymwneud â'r rhwydwaith presennol a / neu arfaethedig
   - Tystiolaeth i gadarnhau unrhyw hawliadau am ddarpariaeth band eang fel yr amlinellir yn Atodiad B: Templed Tystiolaeth Ategol fel disgrifiad o'r ateb technoleg a ddefnyddir (neu y bwriedir ei ddefnyddio), a thystiolaeth o'r cyllid sydd ar gael er mwyn gallu cyflawni cynlluniau;
   - Y cynllun calendr neu'r dyddiadau cyflwyno arfaethedig neu'r dyddiad y bydd unrhyw waith adeiladu seilwaith band eang arfaethedig yn cael ei gwblhau a'r adeiladau'n Barod am Wasanaeth

Dylid wedyn anfon unrhyw ymatebion gan Awdurdodau Lleol i'r Adolygiad Cyhoeddus hwn drwy e-bost at:

BandEang.Broadband2021@gov.wales, wedi'i farcio fel 'Ymateb i'r Adolygiad Cyhoeddus' a dylai gynnwys y canlynol:

- Enw'r Awdurdod Lleol:
- Cyfeiriad yr Awdurdod Lleol;
- Eich enw;
- Swydd (os yn berthnasol)
- Rhif ffôn cysylltu; a
- Chyfeiriad e-bost.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gofyn am gadarnhad gan lofnodwr awdurdodedig bod yr wybodaeth a ddarparwyd fel rhan o'r Adolygiad Cyhoeddus yn gywir ac yn gyfredol.

### Ymatebion gan gyflenwyr

Mae Llywodraeth Cymru yn gwahodd cyflenwyr i archwilio'r wybodaeth a ddarperir yn Adran 3 ynghyd â map rhyngweithiol Cymru, y mapiau ardaloedd ymyrryd yn Atodiad D a'r rhestrau codau post cysylltiedig ar gyfer Cymru a Swydd Amwythig, er mwyn darparu unrhyw dystiolaeth neu wybodaeth ychwanegol a allai effeithio ar yr ardaloedd ymyrryd arfaethedig fel: –

- Seilwaith Band Eang Gigabit a/neu NGA presennol;
- Cynlluniau ar gyfer datblygu / uwchraddio seilwaith band eang presennol;
- Mae cynlluniau ar gyfer ehangu rhagor ar seilwaith band eang yng Nghymru neu ar gyfer yr is-set o UPRN yn Swydd Amwythig hefyd wedi'u cynnwys fel rhan o'r Adolygiad Cyhoeddus RFI hwn
- Diddordeb mewn bidio am gaffaeliadau Prosiect Gigabit posibl a'r gallu i dyfu a chyflawni.

Ar gyfer cyflenwyr sy'n dymuno darparu ymateb i'r Adolygiad Cyhoeddus hwn, gweler Adran 7 ac Adran 8 isod.

## 7. Ymateb i Ddata

Rhowch wybodaeth ar lefel adeiladau (UPRN) yn unig, ynghyd â thystiolaeth ategol ar gyfer unrhyw fuddsoddiad presennol neu arfaethedig mewn seilwaith band eang ledled Cymru (neu'r is-set o UPRN yn Swydd Amwythig) gan ddefnyddio'r templedi a ddarparwyd.

I gyflwyno ymateb i ddata, dilynwch y camau isod, yn ogystal â chyfeirio at y canllawiau yn Atodiad A:

- Rhowch fanylion eich cwmni a llofnodi Cytundeb Trwydded Defnyddiwr Geo-fodol y Sector Cyhoeddus (PSGA), a fydd yn ofynnol cyn y bydd Llywodraeth Cymru yn darparu'r Atodiad A: Templed Cyflwyno Data, Atodiad B  Templed Tystiolaeth Ategol a dogfennau canllaw. Gellir lawrlwytho Cytundeb Trwydded Defnyddiwr Terfynol PSGA oddi ar wefan ymgynghori Llywodraeth Cymru:

  [https://llyw.cymru/band-eang-adolygiad-cyhoeddus-2022](https://llyw.cymru/band-eang-adolygiad-cyhoeddus-2022)

- Yn ogystal â dychwelyd Cytundeb Trwydded Defnyddiwr Terfynol PSGA wedi'i lofnodi, nodwch hefyd yr ardal ddaearyddol yng Nghymru y mae gennych ddiddordeb ynddi – naill ai ledled Cymru (gan gynnwys yr is-set o UPRN yn Swydd Amwythig) neu Ardal(oedd) Awdurdod Lleol penodol.  Yna, bydd Llywodraeth Cymru yn e-bostio fersiwn o Atodiad A: Templed Cyflwyno Data wedi'i deilwra i'r meysydd penodol hyn yn ogystal ag Atodiad B: Templed Tystiolaeth Ategol.
- Os ydych chi eisoes wedi llofnodi'r cytundeb PSGA gyda Llywodraeth Cymru yn dilyn Adolygiad o'r Farchnad Agored 2021, **nid oes** angen i chi anfon hwn ymlaen eto. Anfonwch e-bost at Lywodraeth Cymru yn rhoi gwybod i ni os ydych chi'n dymuno diweddaru eich hawliadau blaenorol am ddarpariaeth OMR ac fe wnawn ni anfon fersiwn o Atodiad A atoch chi mewn e-bost: Templed Cyflwyno Data
- Peidiwch â chymryd y byddwn yn defnyddio cyflwyniad blaenorol ar gyfer yr Adolygiad Cyhoeddus RFI hwn. Os ydych chi'n dymuno i gyflwyniad blaenorol gael ei drin fel eich ffurflen ar gyfer yr RFI hwn, anfonwch e-bost at Lywodraeth Cymru i gadarnhau hyn.
- Dylech gynnwys yr holl adeiladau presennol ac arfaethedig yn eich Atodiad A: Templed Cyflwyno Data
- Dylech hefyd gynnwys yn eich Atodiad A: Templed Cyflwyno Data unrhyw seilwaith presennol neu arfaethedig rydych chi wedi'i ennill gyda chymorth cymhorthdal cyhoeddus, er enghraifft Talebau, Cyflym Iawn (NBS 2012 neu NBS 2016) a Hybiau (Rhaglenni Cysylltedd Gigabit Gwledig a Rhwydweithiau Ffeibr Llawn Lleol).
- Gallwch ofyn am eglurhad, drwy ymateb i'r Adolygiad Cyhoeddus RFI, ar unrhyw adeg rhwng 8fed Ebrill 2022 a 6ed Mai 2022. Anfonwch y cwestiynau hyn atom yn:
  [BandEang.Broadband2021@gov.wales](mailto:BandEang.Broadband2021@gov.wales)
- Dylech gyflwyno eich Atodiad A: Templed Cyflwyno Data wedi'i lenwi, ac Atodiad B: Templed Tystiolaeth Ategol i Lywodraeth Cymru gan ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost canlynol:

  [BandEang.Broadband2021@gov.wales](mailto:BandEang.Broadband2021@gov.wales).

- Y dyddiad cau terfynol ar gyfer ymatebion i'r Adolygiad yw 17:00 ar 6 Mai 2022.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn cysylltu â Llywodraeth Cymru cyn gynted â phosibl i gadarnhau a fyddai angen Datganiad Sicrwydd Peidio â Datgelu arnoch er mwyn i chi allu rhannu eich data â

Llywodraeth Cymru fel rhan o'r broses OMR hon. Os felly, bydd copi o Ddatganiad Sicrwydd Peidio â Datgelu safonol Llywodraeth Cymru yn cael ei anfon atoch i'w lenwi a'i lofnodi.

Dylid nodi hefyd ei bod yn ofynnol defnyddio'r wybodaeth hon i lunio mapiau i ddiffinio ardaloedd 'Gwyn', 'Llwyd', 'Du' a 'Dan Adolygiad' ar gyfer band eang sy'n gallu delio â gigabit a NGA. Fodd bynnag, bydd y mapiau a gyhoeddir yn dangos yr ardaloedd band eang 'Gwyn', 'Llwyd', 'Du' a 'Dan Adolygiad' wedi eu hagregu, nid y data a ddarperir fesul gweithredwr. Bydd y mapiau terfynol a'r UPRN a fydd yn cael eu defnyddio at ddibenion caffael yn cael eu cyhoeddi yn fuan ar ôl i'r Adolygiad Cyhoeddus hwn ddod i ben ac ar ôl iddynt gael eu cymeradwyo gan y Ganolfan Cymhwysedd Genedlaethol.

Os oes unrhyw gwestiynau am unrhyw agwedd ar yr uchod, cysylltwch â

BandEang.Broadband2021@gov.wales

# 8. Gofynion Cyflwyno

Rhaid i ymatebion cyflenwyr i'r Adolygiad Cyhoeddus RFI hwn gynnwys y canlynol:

1. Data a ddylai gynnwys eich darpariaeth bresennol a'r ddarpariaeth arfaethedig ar gyfer adeiladau h.y. adeiladau a wasanaethir gan eich rhwydwaith, neu y bwriedir eu gwasanaethu gan eich rhwydwaith yn unol â'r fformat a amlinellir yn **Atodiad A**: **Templed Cyflwyno Data** Bydd canllawiau llawn ar sut i lenwi a chyflwyno Atodiad A: Templed Cyflwyno Data yn cael ei ddarparu i chi ar ôl dychwelyd Cytundeb Trwydded Defnyddiwr Terfynol PSGA wedi'i lofnodi. Er gwybodaeth, mae'r meysydd data gofynnol yn Atodiad A: Templed Cyflwyno Data yn cael eu dangos fel enghraifft yn **Atodiad A** isod.
2. Sylwch, os yw eich hawliadau darpariaeth ar gyfer rhwydweithiau sy'n gallu delio â gigabits, yna mae'n rhaid i'ch ymateb sy'n rhoi manylion eich dyluniad rhwydwaith a'ch pensaernïaeth arfaethedig ystyried y diffiniad technegol fel yr amlinellir yn **Atodiad C**: **Diffiniad Technegol.** Os yw eich hawliadau am ddarpariaeth yn defnyddio technoleg NGA, yna mae'n rhaid i'ch rhwydwaith fodloni'r gofynion o ran technoleg fel yr amlinellir hynny yn NBS 2016[3]
3. Yn ogystal â chyflwyno eich data, rhaid i gyflenwyr hefyd ddarparu **Atodiad B**: **Templed Tystiolaeth Ategol**
4. Hoffai Llywodraeth Cymru hefyd glywed barn cyflenwyr am y mathau o gynnyrch mynediad cyfanwerthol yr hoffent eu gweld yn cael eu cynnig ar unrhyw seilwaith rhwydwaith â chymhorthdal sydd newydd gael ei greu. Gallai'r wybodaeth hon fod yn sail i ddyluniad yr ymyriad. Sylwch nad oes yn rhaid i ni gynnwys y cynhyrchion hyn yn y Gwahoddiad i Dendro.

### Tystiolaeth i ddangos sut mae buddsoddiadau a gynlluniwyd yn hyfyw

Mae tri maes hanfodol y bydd Llywodraeth Cymru yn eu defnyddio i werthuso eich hawliadau darpariaeth arfaethedig yn eu herbyn er mwyn sicrhau hyfywedd cyffredinol eich buddsoddiad

[3] 2016 NBS Tech Guidelines - GOV.UK (www.gov.uk)

arfaethedig. Bydd ein hasesiad yn seiliedig ar yr holl dystiolaeth rydych chi'n ei darparu i Lywodraeth Cymru yn Atodiad B: Templed Tystiolaeth Ategol a fydd yn cynnwys:

- a yw'r dechnoleg rydych chi'n bwriadu ei defnyddio yn gallu delio â gigabits ac a yw'n bodloni'r meini prawf technegol fel yr amlinellir yn Atodiad C: Diffiniad Technegol (neu os yw'n defnyddio technoleg NGA, ei fod yn bodloni'r gofynion o ran technoleg fel yr amlinellir yn NBS 2016).
- gallu i gyflawni, ac a yw eich cynlluniau gweithredu yn cyd-fynd â'r camau / adeiladau a nodwyd yn eich cynllun busnes, gyda'r camau adeiladu allweddol a'r prosesau wedi'u hamlinellu; a
- hyfywedd masnachol – a oes gennych gynlluniau masnachol hyfyw fel mynediad digonol at gyfalaf ac a yw'r arian a dynnir i lawr yn cyd-fynd â'ch cynllun cyflwyno a'ch rhaglen adeiladu.

Dylai'r wybodaeth rydych chi'n ei darparu fod yn gyson ar draws yr holl feysydd uchod er mwyn galluogi a chefnogi gwerthusiad cyfunol o'ch cyflwyniad ar gyfer yr Adolygiad Cyhoeddus.

**Mae rhagor o wybodaeth yn Atodiad B: Templed Tystiolaeth Ategol.**

# 9. Dyddiad Dychwelyd

Dylech gyflwyno ymatebion i'r Adolygiad Cyhoeddus hwn erbyn y dyddiad cau sef **17:00 ar 6 Mai 2022.** Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi'r mapiau terfynol sy'n dangos yr ardal ymyrryd derfynol ar gyfer Cymru, ar ôl i'r cyfnod asesu a gwerthuso ddod i ben. Yn yr un modd, bydd BDUK yn cyhoeddi'r mapiau terfynol yn dangos yr ardal ymyrryd derfynol ar gyfer yr is-set o adeiladau yn Swydd Amwythig ar ôl i'r Adolygiad Cyhoeddus ddod i ben ac ar ôl cyfnod yr adolygiad.

Diolch yn fawr

Llywodraeth Cymru

# Atodiad A: Fformat Cyflwyno Data

## Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cymru yn gofyn am feysydd data penodol ar gyfer pob cyfeiriad perthnasol yn y DU fel y nodir gan y Cyfeirnod Eiddo Unigryw (UPRN) er mwyn monitro darpariaeth gwasanaethau band eang Gigabit nawr ac yn y dyfodol. Gwneir hyn drwy ofyn am ddata ar gysylltiadau cyfredol a chysylltiadau yn y dyfodol gan gyflenwyr perthnasol. Mae'r isod yn disgrifio fformat ffeil gais Llywodraeth Cymru a sut mae fformatio'r data i'w ddychwelyd atom. Os oes angen unrhyw gymorth, arweiniad neu eglurhad ychwanegol arnoch gyda hyn, cysylltwch â ni yn

BandEang.Broadband2021@gov.wales

## Fformatau ffeiliau

Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu templedi gwag ar gyfer yr Adolygiad Cyhoeddus, gan ddangos yr UPRN ar draws y wlad rydyn ni'n credu sy'n berthnasol i'r broses yn ogystal â'r colofnau safonol rydyn ni eu hangen.[4]

Mae'r UPRN hyn wedi dod o Address Base Premium Epooch 85, gan Arolwg Ordnans a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2021.

Os ydych chi'n defnyddio'r ffeiliau templed fel man cychwyn ar gyfer eich ffurflen, tynnwch allan unrhyw resi UPRN nad ydynt yn rhan o'ch rhwydwaith presennol neu arfaethedig.

[4]Bydd y templed Ymateb yn cael ei ryddhau i ddarparwyr unwaith y bydd Llywodraeth Cymru wedi derbyn ffurflen Trwydded Contractio Sector Cyhoeddus yr Arolwg Ordnans y gellir ei llwytho i lawr oddi ar wefan Llywodraeth Cymru https://llyw.cymru/band-eang-adolygiad-cyhoeddus-2022

.

Mae’r wybodaeth a ddarparwn yn erbyn pob eiddo / adeilad fel a ganlyn:

| Enw Maes | Disgrifiad | Fformat |
|---|---|---|
| **strUPRN** | Yr UPRN (gweler isod) wedi’i ragflaenu â “STR”, mae hyn yn lliniaru yn erbyn rhai adnoddau taenlen sy’n trin yr UPRN fel rhif mawr ac yn cael gwared ar ddigidau arwyddocaol | Testun |
| **UPRN** | Cyfeirnod unigryw’r eiddo | Rhif |
| **Cyfeiriad_Un_Llinell** | Cyfeiriad un llinell wedi’i rannu ag atalnodau<br><br>ee 1, Acacia Avenue, Anytown | Testun |
| **Cod Post** | Cod post safonol | Testun |
| **Ardal_Awdurdod_Lleol** | Ardal yr awdurdod lleol | Testun |
| **Hydred** | Hydred mewn fformat gradd ddegol | Rhif |
| **Lledred** | Lledred mewn fformat gradd ddegol | Rhif |

Mae’r wybodaeth yr ydym yn gofyn amdani yn erbyn pob eiddo / adeilad fel a ganlyn:

| Enw Maes | Disgrifiad | Fformat |
|---|---|---|
| **Technoleg_Bresennol** | Y dechnoleg rydych chi’n ei defnyddio i gyflenwi’r adeilad penodol hwnnw, gallai enghreifftiau o hyn fod yn ADSL, FTTP, FTTC ac ati | Testun |
| **Uchafswm_Cyflymder_Lawrlwytho_Presennol** | Y cyflymder lawrlwytho uchaf mewn Mbit yr eiliad y gallwch ei gyflenwi i’r eiddo hwn. | Rhif |
| **Uchafswm_Cyflymder_Lanlwytho_Presennol** | Y cyflymder lanlwytho uchaf mewn Mbit yr eiliad y gallwch ei gyflenwi i’r eiddo hwn. | Rhif |
| **Technoleg_y_Dyfodol** | Y dechnoleg rydych chi’n bwriadu ei defnyddio i gyflenwi’r adeilad penodol hwnnw, gallai enghreifftiau o hyn fod yn  FTTP, FTTC ac ati | Testun |
| **Uchafswm_Cyflymder_Lawrlwytho_y_Dyfodol** | Y cyflymder lawrlwytho uchaf mewn Mbit yr eiliad y bwriadwch ei gyflenwi i’r eiddo hwn. | Rhif |
| **Uchafswm_Cyflymder_Lanlwytho_y_Dyfodol** | Y cyflymder lanlwytho uchaf mewn Mbit yr eiliad y bwriadwch ei gyflenwi i’r eiddo hwn. | Rhif |

| | | |
|---|---|---|
| **Dyddiad_Cyflwyno_yn_y_Dyfodol** | Dylai hwn fod yn ddyddiad Barod am Wasanaeth ar gyfer yr adeilad. Y dyddiad y gall RSP gynnig cynnyrch neu wasanaethau i'r eiddo unigol. Ni ddylai hyn fod y dyddiad y mae'r gwaith adeiladu'n dechrau. | DD/MM/BBBB |
| **Cam_Cyflawni** | Y cam arfaethedig ar gyfer unrhyw gyflwyno yn y dyfodol y bydd pob UPRN yn rhan ohono, e.e. Cam 1/Cam 2 ac ati, Tranche1/Tranche 2 ayb., Rhanbarth 1/Rhanbarth 2 ac ati.<br><br>Dylai'r camau hyn gyd-fynd â'ch Cynllun Calendr a dylent fod yn gyson â'r wybodaeth yn eich Atodiad B: Templed Tystiolaeth Ategol. Dylech gynnwys cyd-destun ar gyfer cam cyflawni yn eich tystiolaeth ategol fel y risgiau a'r dibyniaethau ar gyfer cyflawni pob cam yn llwyddiannus a'r mesurau lliniaru/trefniadau sydd gennych ar waith i fynd i'r afael â'r risgiau hyn; disgrifiad o'ch cynllun adnoddau ar gyfer pob cam; cerrig milltir allweddol ym mhob cam a'r gweithgareddau/amseroedd dilynol i gyflawni'r RFS. | Testun |
| **Cam_Dylunio** | Cam presennol eich darpariaeth i'r dyfodol, fel: | Testun |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **'1. Aros am HLD'** – Nid yw'r Dyluniad Lefel Uchel (HLD) wedi'i gwblhau eto.<br><br>**'2. HLD wedi'i gwblhau**' – Cynllun lefel HLD/ardal wedi'i gwblhau. Fodd bynnag, nid yw'r gwaith Dylunio Lefel Isel (LLD) wedi'i gwblhau eto neu mae'n mynd rhagddo.<br><br>**'3. LDD wedi'i gwblhau**' – Dyluniad Lefel Isel (LLD) a gwaith arolygu wedi'i gwblhau, fodd bynnag, mae is-gontractwyr/partneriaid adeiladu, neu adnoddau mewnol i gwblhau'r gwaith o adeiladu'r rhwydwaith, yn dal heb eu penodi.<br><br>**'4. Penodwyd tîm adeiladu**' – Mae is-gontractwyr / partneriaid adeiladu neu, os yw'n berthnasol, adnoddau sifil mewnol wedi cael eu penodi a'u comisiynu i ddechrau adeiladu'r rhwydwaith yn unol â'r LLD. Mae'r holl gynlluniau, caffaeliadau a chytundebau fforddfraint angenrheidiol wedi eu cwblhau er mwyn gallu adeiladu'r rhwydwaith.<br><br>**'5. Wrthi'n adeiladu**' – Mae gwaith adeiladu'r Rhwydwaith yn mynd rhagddo, ond nid yw'r adeiladau'n gallu manteisio ar wasanaeth eto.<br><br>**'6. RFS**– Mae'r gwaith o adeiladu'r rhwydwaith a phrofi o un pen i' llall wedi'i gwblhau ac mae'r adeiladau'n Barod am | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Wasanaeth, h.y. mae RSP yn gallu cynnig cynnyrch neu wasanaethau i'r eiddo unigol<br><br>Noder: Os ydych chi'n bwriadu defnyddio disgrifiadau gwahanol i'r rhai uchod, dylech gynnwys esboniadau llawn o bob cofnod maes yn eich tystiolaeth ategol a gyflwynwyd i gyd-fynd â'r data a gyflwynwyd. | | |
| **Cam_Cyllido** | Statws cyfredol y cyllid a ddyrannwyd i'r UPRN. Os yw eich dyraniad cyllid yn gysylltiedig â'ch Cam_Cyflawni, dylech adlewyrchu hynny yn eich data ac egluro hynny yn eich tystiolaeth ategol. Cofiwch y bydd asesiad Llywodraeth Cymru o ffurflenni cyflenwyr yn seiliedig, yn llawn, ar y dystiolaeth y gofynnir amdani yn Atodiad B. O'r herwydd, ni allwn warantu y byddwn yn derbyn sut mae cyflenwyr wedi categoreiddio statws eu sefyllfa gyllido. Cofnodion maes i'w defnyddio:<br><br>**'1. Dim cyllid wedi'i gynllunio na'i ymrwymo**' – Er eich bod yn bwriadu cyflawni'r UPRN hwn, nid yw'r cyllid ar gael eto i wneud hynny a/neu rydych yn chwilio am gyllid.<br><br>**'2. Cyllid wedi'i gynllunio, ond heb ei ymrwymo**' – Mewn egwyddor, rydych | Testun |

| | | |
|---|---|---|
| | wedi cytuno i ddarparu i'r UPRN hwn, ond nid yw'r cyllid ar gael ar unwaith, mae angen penderfyniadau pellach fel cymeradwyaeth y Bwrdd, neu mae'n dibynnu ar fetrigau perfformiad (er enghraifft).<br><br>**'3. Cyllid wedi'i ymrwymo**' – Mae cyllid wedi'i ganfod ac wedi'i ddyrannu i gyflawni'r UPRN hwn. Nid oes unrhyw amodau pellach o ran denu neu ddefnyddio cyllid ac mae'r cyllid wedi'i neilltuo ar gyfer cyflenwi adeiladau cysylltiedig yn unig. Dylid egluro hyn yn glir yn eich cynllun ariannol, a dylid ei ddarparu fel rhan o'ch Atodiad B: Templed Tystiolaeth Ategol. | |
| **Ymyriad_Cyhoeddus** | Diffiniwch a yw'r ddarpariaeth yn seiliedig ar ymyriad cyhoeddus. Bydd 'Ydy' yn cael ei farcio pan fydd adeilad arfaethedig yn ddibynnol ar gyllid gan Dalebau Llywodraeth y DU, Rhaglenni Cyflym Iawn, LFFN neu RGC. Fodd bynnag, dylai ymyriadau cyhoeddus eraill (fel cynlluniau Llywodraeth Ddatganoledig neu Awdurdodau Lleol) gael eu cydnabod a'u marcio fel rhai 'Ydy' yma hefyd. Dylid rhoi rhagor o esboniad yn eich Atodiad B: Templed Tystiolaeth Ategol.<br><br>Byddai cofnodi 'Na' yn dangos bod y bwriedir i'r | Ydy / Na |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | adeilad gael ei gyflenwi'n gyfan gwbl drwy gyllid masnachol heb fod yn ddibynnol ar ymyriad cyhoeddus. Dylid darparu tystiolaeth o'r cyllid hwn yn eich tystiolaeth ategol. | |

| Enw Maes | Disgrifiad | Fformat |
|---|---|---|
| **UPRN_Ychwanegol** | Arwydd os yw'r UPRN wedi cael ei ychwanegu oherwydd methodoleg hidlo wedi'i diweddaru<br><br>DO = adeilad a fyddai wedi cael ei hidlo o dan reolau hidlo blaenorol (mwy cyfyngol). Nid oedd yr un o'r adeiladau hyn yn y ffeiliau templed OMR.<br><br>NA = adeilad na fyddai'n cael ei hidlo allan ar sail rheolau hidlo blaenorol (mwy cyfyngol). | Do/Na |

## Colofnau ychwanegol

Ar wahân i'r colofnau safonol uchod, efallai yr hoffech ychwanegu colofnau ychwanegol i ddarparu rhagor o wybodaeth ychwanegol am eich rhwydwaith. Os felly, ychwanegwch golofn(nau) ychwanegol ar ddiwedd eich ffurflen ddata a rhowch esboniad clir yn eich tystiolaeth ategol o'r hyn y mae'r colofnau hyn yn ei ddangos.

# Atodiad B: Tystiolaeth Ategol

**Rhowch fanylion a thystiolaeth ategol ychwanegol o unrhyw fuddsoddiad cyfredol neu arfaethedig mewn seilwaith band eang (band eang Mynediad y Genhedlaeth Nesaf, gwibgyswllt, a sy'n gallu delio â gigabit) yn y ddaearyddiaeth a nodwyd gan ddefnyddio'r Templed Tystiolaeth Ategol a ddarparwyd.**

**Dylai unrhyw wybodaeth sy'n cael ei darparu mewn ymateb i'r cais hwn gynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny:**

- Dangosiad/esboniad priodol ynghylch sut mae eich seilwaith band eang neu wasanaethau cyflenwyr yn bodloni'r safonau sylfaenol lle mae'r rhain yn honni mai Mynediad y Genhedlaeth Nesaf, gwibgyswllt neu gigabeit yw'r rhain.

    - Er gwybodaeth yn unig, mae'r diffiniad o alluogrwydd yn cyd-fynd â'r diffiniadau yn Adroddiadau Gwledydd Cysylltiedig Ofcom, ee;
        - derbyniol (10 Mbps a mwy),
        - cyflym iawn (30 Mbps a mwy),
        - gwibgyswllt (300 Mbps a mwy) a
        - band eang sy'n gallu delio â gigabit, sy'n gallu cynnig cyflymderau o 1 Gbps ac uwch.

    - Sylwer: pan fydd y gwasanaeth a gynigir gan gyflenwr wedi'i gyfyngu i wasanaethau goddefol *yn unig* (ee ffeibr tywyll, mynediad pibelli, mynediad mast), ni fyddai hyn fel arfer yn cael ei ystyried yn rhwydwaith Mynediad y Genhedlaeth Nesaf, band eang gwibgyswllt neu fand eang sy'n gallu delio â gigabits, oni bai fod y cyflenwr yn rhoi disgrifiad o sut mae darparwr gwasanaethau gweithredol yn gallu cefnogi, yn dechnegol ac yn fasnachol, Mynediad y Genhedlaeth Nesaf , gwasanaethau gwibgyswllt neu fand eang sy'n gallu delio â gigabits dros y seilwaith.

    - Serch hynny, os yw cyflenwr seilwaith goddefol yn cynnig mynediad at seilwaith yn y ddaearyddiaeth a nodwyd, mae'n cael ei annog i ddarparu rhagor o fanylion am ei leoliad er mwyn i gynigwyr ar gyfer unrhyw broses gaffael yn y dyfodol ystyried ei defnyddio wrth ddylunio eu hatebion.

- Ym mhob categori band eang (Mynediad y Genhedlaeth Nesaf, gwibgyswllt neu sy'n gallu delio â gigabits) nodwch: (i) cyfanswm lefel y defnydd a ddisgwylir; a (ii) pa lefel o ddefnydd y gellir ei chynnal drwy ddyluniad a dimensiynau'r rhwydwaith.

    - Er enghraifft, efallai mai dim ond 10% o'r adeiladau sy'n rhan o'i rwydwaith cyflym iawn mae cyflenwr di-wifr sefydlog yn disgwyl fydd yn ei ddefnyddio, a bydd ond yn gallu cefnogi 20% o'r holl adeiladau sy'n cael eu trosi i gwsmeriaid heb orfod uwchraddio'r rhwydwaith yn sylweddol.

- Nodwch y cyflymderau "sydd ar gael fel arfer" ac "isafswm" ar gyfer cwsmeriaid pob gwasanaeth e.e.

| Gwasanaeth | Lawrlwytho "ar gael fel arfer" | "Isafswm" lawrlwytho | Lanlwytho "ar gael fel arfer" |
|---|---|---|---|
| 100Mbps | 100Mbps | 40Mbps | 20Mbps |
| 330Mbps | 300Mbps | 120Mbps | 60Mbps |
| 1Gbps | 980Mbps | 330Mbps | 200Mbps |

Edrychwch ar destun llawn Cod Ymarfer Gwirfoddol Ofcom ar Gyflymderau Band Eang Gwell (Mawrth 2019). Fodd bynnag, gellir crynhoi'r diffiniadau hyn fel a ganlyn (crynodeb o God Ymarfer Gwirfoddol Ofcom):

> *Mae cyflymder "ar gael fel arfer" yn cael ei ddiffinio fel y cyflymder y gallai cwsmer ddisgwyl ei gael yn ystod oriau brig – sy'n cael ei fesur fel 8-10pm ar gyfer gwasanaethau preswyl a 12-2pm ar gyfer gwasanaethau busnes ac sy'n adlewyrchu pryd mae cwsmeriaid yn fwyaf tebygol o ddefnyddio'r gwasanaeth.*
>
> Diffinnir "cyflymder isaf" fel yr isafswm cyflymder gwarantedig y dylai cwsmer ei ddisgwyl gan y gwasanaeth, a fyddai'n rhoi hawl i'r cwsmer adael y contract os bydd y cyflymderau'n disgyn o dan y lefel sylfaenol hon ac nad oes modd eu datrys o fewn cyfnod o 30 diwrnod.

- Dangosyddion priodol o ansawdd y gwasanaeth e.e. cymhareb gystadlu a/neu ddyraniad lled band fesul defnyddiwr, ynghyd ag esboniad technegol o sut y bydd y rhain yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r cyflymderau sylfaenol a fydd ar gael fel arfer ar gyfer pob defnyddiwr.

- Disgrifiad o'r saernïaeth dechnegol sy'n dangos sut bydd y perfformiad a'r cyflymderau data honedig yn cael eu cynnal o un pen i'r llall ar draws y seilwaith sy'n cael ei ddefnyddio. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, diagramau cysylltedd rhwydwaith, mapiau defnydd/darpariaeth, rheolau dylunio/dimensiynu ar gyfer elfennau rhwydwaith, gwybodaeth am gapasiti ôl-drosglwyddo data, mathau a meintiau offer, manylebau technegol, mesuriadau perfformiad rhwydwaith ac ati.

- Disgrifiad o'r holl wasanaethau/cynnyrch a gynigir dros y seilwaith gan gynnwys unrhyw ddarpariaeth gyfanwerthol i unrhyw ddarparwyr gwasanaeth manwerthu a gynigir ar hyn o bryd ac unrhyw estyniad arfaethedig i'r gwasanaethau hyn o fewn y 3 blynedd nesaf. Nodwch pa ddarparwyr gwasanaethau manwerthu sy'n defnyddio'r gwasanaethau hyn a pha wasanaethau sy'n cael eu defnyddio?

- Tariffau gosod a rhentu ar gyfer gwasanaethau/nwyddau sy'n dangos yn glir a ydynt yn cynnwys TAW ai peidio.

- Cadarnhad gan rhywun sydd ag awdurdod i lofnodi yn dweud bod yr holl wybodaeth yn gywir.

**Er mwyn i Lywodraeth Cymru werthuso unrhyw hawliadau arfaethedig am fuddsoddiad a darpariaeth a ddarperir fel rhan o'r broses Adolygiad Cyhoeddus, gwnewch yn siŵr eich bod yn llenwi 'Rhan D: Buddsoddiadau wedi'u Cynllunio' Atodiad B: Templed Tystiolaeth Ategol.**

**Dylech gynnwys Cynllun Busnes amlinellol, cynllun calendr a thystiolaeth o gyllid digonol ar gyfer eich adeiladwaith arfaethedig o leiaf.**

Byddem hefyd yn hoffi cael gwybodaeth am strwythur y cwmni (er enghraifft rhiant-gwmni), tystiolaeth o gyfalaf digonol (neu eich cynlluniau i godi cyfalaf), dibyniaethau a thybiaethau sy'n gysylltiedig ag ariannu (er enghraifft refeniw o rwydwaith presennol neu ragdybiaethau ynghylch refeniw talebau GBVS) a gwybodaeth ariannol a masnachol arall i alluogi Llywodraeth Cymru i ddeall hyfywedd eich buddsoddiad arfaethedig.

Wrth asesu a yw buddsoddiadau arfaethedig yn hyfyw, gall Llywodraeth Cymru:

- adolygu'r cynlluniau busnes a'r cynlluniau calendr i sicrhau bod y rhain yn gyson ac yn ddigon manwl ar gyfer pob cam o'r gwaith adeiladu sydd wedi'i gynllunio.

- gofyn am dystiolaeth sy'n dangos cymeriad credadwy a dichonadwy y buddsoddiad arfaethedig a ddylai, o leiaf, gynnwys cynllun busnes, cynllun cyflwyno calendr manwl, prawf o gyllid digonol a phensaernïaeth dechnegol arfaethedig.

- sicrhau bod cynlluniau cyflwyno calendr yn cynnwys y camau adeiladu allweddol a phryd fydd cyflenwyr yn disgwyl ymgymryd â gweithgareddau sylweddol yn eu rhaglen adeiladu, fel dylunio, arolygu, caffael, adeiladu rhwydwaith, gosod rhwydwaith ac ati, neu'r prosesau allweddol sy'n rhan o'ch cynllun adeiladu ar gyfer y cam dylunio, cyfnod yr arolwg, hysbysiadau ffyrdd / ffyrddfreintiau ac ati.

- profi bod y cyllid sydd ar gael yn ddigonol ar gyfer pob cam o'r gwaith adeiladu sydd wedi'i gynllunio a bod y cyfalaf sydd wedi'i ddyrannu ar gyfer yr ardal OMR benodol yn ddigonol a'i fod yn cyd-fynd â'r cynllun lleoli.

- adolygu telerau unrhyw drefniadau cyllido ac unrhyw ddibyniaethau a thybiaethau sy'n gysylltiedig â'r cyllido, gan gynnwys rhagdybiaethau a dibyniaethau sy'n gysylltiedig â chymhorthdal cyhoeddus fel talebau GBVS neu gynlluniau rhanbarthol.

- sicrhau bod dyluniad y rhwydwaith a'r wybodaeth dimensiynu a ddarperir yn cyd-fynd â'r rhagamcanion a wnaed yn y Cynllun Busnes ynghylch cysylltiadau cwsmeriaid a disgwyliadau twf.

A fyddech gystal ag ategu'r Templed Tystiolaeth Ategol sydd ynghlwm gyda dogfennau eraill sy'n briodol yn eich barn chi (e.e. gwefannau cyhoeddus, adroddiadau cyhoeddedig, ac ati). Os oes angen unrhyw gymorth, arweiniad neu eglurhad ychwanegol arnoch gyda hyn, cysylltwch â ni yn BandEang.Broadband2021@gov.wales

# Atodiad C: Diffiniad o Dechnoleg

Bydd y DU yn adolygu'r meini prawf ar gyfer rhwydweithiau sy'n gallu delio â gigabits o fewn tri mis i lansio caffael seilwaith, yn seiliedig ar yr ymgynghoriad â'r diwydiant, a rheoleiddiwr y DU, ynghylch y meini prawf isod. Yn y cyfamser, bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r diffiniad technegol canlynol:

> Seilwaith sy'n gallu cefnogi gwasanaethau sy'n gallu delio â gigabits yn uniongyrchol neu drwy ddarparwyr trydydd parti heb gyfyngiad, fel y nodir isod:
>
> a) Cysylltiadau sy'n gallu delio â gigabits (sy'n gallu darparu cyflymder lawrlwytho o 1000Mbps neu fwy) ar adeg darparu'r cysylltiad heb fod angen uwchraddio neu addasu caledwedd yn y dyfodol[5] h.y. galluogrwydd sy'n gallu delio â gigabits i fod ar gael o'r diwrnod cyntaf ac os yw'r defnyddiwr yn cymryd cyflymder arafach, mae'n rhaid gallu ei uwchraddio'n feddal heb oedi gormodol.
>
> b) O leiaf un cynnyrch gyda chyflymder lawrlwytho o 1Gbps o leiaf a chyflymder lanlwytho o 200Mbps o leiaf gyda pherfformiad oriau prysur fel y nodir isod.
>
> c) Cynhyrchion gydag esboniad clir a chynhwysfawr o'r cyflymderau lawrlwytho a lanlwytho sylfaenol, sydd ar gael fel arfer[6] a'r cyflymderau uchaf a hysbysebir.[7]
>
> d) Oedi data isel yn unol â threfn Ofcom neu godau ymarfer, normau diweddar y diwydiant a Safonau'r Diwydiant ar gyfer gofynion gwasanaethau amser real (neu fel arall, yn absenoldeb safonau cyfredol 10ms ac is am 95% o'r amser).
>
> e) Cymorth ar gyfer gwasanaethau amser real (e.e. galwadau llais/fideo, telemateg, telefeddygaeth ac ati) gyda dangosyddion perfformiad (e.e. cryndod, colli pecynnau ac ati) yn unol â safonau diweddar y diwydiant, neu yn absenoldeb safonau'r diwydiant: 2ms ar gyfer cryndod, 0.1% ar gyfer colli pecynnau am 95% o'r amser.
>
> f) Gwir gyflymderau a pherfformiad data yn ystod oriau prysuraf y dydd (dim mwy na 4 o bob 24), nad ydynt yn diraddio o dan 33% o'r prif gyflymder lawrlwytho, a chyflymder lanlwytho sy'n cyfateb i 20% o'r cyflymder lawrlwytho isaf (nodyn: ar gyfer perfformiad lle mae gwerthoedd is yn well, fel oedi, cryndod a cholli pecynnau, yna byddai ffactor o 100% yn uwch yn gymwys yn lle hynny).

---

[5] Mae hyn yn berthnasol yn bennaf i CPE ond hefyd uwchraddio rhwydweithiau eraill /ôl-drosglwyddo data.

[6] Fel arfer, mae'n bosibl y bydd y cyflymderau lawrlwytho sylfaenol a'r cyflymderau isaf yn cynnwys gorbenion pecynnau a fframio arferol y technolegau a ddefnyddir, ar yr amod nad ydynt yn fwy na chanran fechan o gyfanswm y traffig h.y. diffinnir cyflymder data fel (traffig data'r defnyddiwr + gorbenion) / amser.

[7] Fel y diffinnir gan Ofcom.

g) Gwir gyflymderau a pherfformiad data nad ydynt yn dirywio y tu allan i'r oriau prysuraf o dan 95% o'r cyflymderau lawrlwytho a lanlwytho uchaf a nodir uchod.

h) Mae gwir gyflymder a pherfformiad data nad ydynt yn dirywio wrth i'r nifer sy'n defnyddio gwasanaethau agosáu at 100% o'r farchnad y gellir cyfeirio ati (gan gynnwys unrhyw ran sy'n deillio o ddiffodd rhwydweithiau gwaddol), i'w dangos gan gynlluniau masnachol a thechnegol cadarn (gan gynnwys uwchraddio capasiti) yn seiliedig ar ragolygon o hyd at 7 mlynedd.

i) Lle mae'r gwasanaethau a gynigir a'r perfformiad yn amrywio yn ôl ardal e.e. o ganlyniad i bellter y tanysgrifwyr o'r seilwaith, gellir cynnal y galluedd gigabeit ar gyfer pob cwsmer posibl.

j) Cyflawni a chywiro o fewn amserlenni arferol y diwydiant, wedi'i hategu gan brosesau rheoli gwasanaeth sy'n amlwg yn effeithlon.


k) Cynnal lefelau gwasanaeth i gwsmeriaid ac argaeledd rhwydwaith yn unol â normau'r diwydiant, a gefnogir yn ddelfrydol gan Gytundebau Lefel Gwasanaeth.


l) Darpariaeth gwasanaeth nad yw'n gwahaniaethu'n annheg yn erbyn mathau penodol o wasanaethau, darparwyr, tanysgrifwyr neu drydydd partïon (e.e. drwy fesurau siapio traffig neu Ansawdd Gwasanaeth).

m) Ar gyfer rhwydweithiau â chymhorthdal yn unig; cynnig cynnyrch mynediad cyfanwerthol ar delerau agored ac anwahaniaethol yn unol â'r egwyddor o niwtraliaeth dechnolegol, er mwyn gallu rhyng-gysylltu â'r rhwydwaith â chymhorthdal o unrhyw dechnoleg y gallai darparwyr cyfathrebiadau eraill a/neu ddarparwyr adwerthu ei hystyried yn briodol yn rhesymol yn unol â'r gofynion mynediad cyfanwerthol.

# Atodiad D: Mapiau i ddangos ardal yr ymyriad

Mae’r mapiau isod yn dangos y delweddau o’r ardaloedd ymyrryd NGA a gigabit drafft presennol yng Nghymru.







Sylwch fod y map rhyngweithiol manwl sy'n rhoi rhagor o fanylion ar gael yma:

https://datamap.gov.wales/maps/open-market-review-2021-next-generation-access-bro/

https://datamap.gov.wales/maps/open-market-review-2021-gigabit-capable-broadband/

Mae'r is-set ychwanegol o UPRN sydd wedi'u cynnwys ar gyfer Swydd Amwythig hefyd i'w gweld ar y map isod, ac yn cael eu dangos mewn oren.




Mae'r data lefel cod post hefyd wedi cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r ddogfen RFI Adolygiad Cyhoeddus hon.

https://llyw.cymru/band-eang-adolygiad-cyhoeddus-2022

# Atodiad E – Deddfau a Biliau a gyflwynwyd i'r Cynulliad â'r costau yn 2017-18 Rheoli Cymhorthdal

Ar ôl i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd ar 31ain Ionawr 2020, mae angen i'r gwaith o ddyfarnu cymhorthdal cyhoeddus ystyried rheolau Sefydliad Masnach y Byd ac unrhyw ymrwymiadau rhyngwladol a wneir mewn cytundebau masnach rydd. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y cymhorthdal arfaethedig hwn yn dod o dan yr egwyddorion rheoli cymhorthdal yn [Adran 3 y Cytundeb Masnach a Chydweithredu]() (TCA) y cytunwyd arno rhwng yr Undeb Ewropeaidd a Llywodraeth y DU ar 24 Rhagfyr 2020. Mae'r TCA yn gosod dyletswydd ar y DU a'r UE i gael system effeithiol o reoli cymhorthdal gyda goruchwyliaeth annibynnol.

Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau ei bod yn bodloni'r egwyddorion cymhorthdal hyn wrth ddyfarnu cymhorthdal cyhoeddus ar gyfer seilwaith band eang sy'n gallu delio â gigabits, er enghraifft, drwy sicrhau bod cymhorthdal yn cael ei ddylunio i dargedu diffyg yn y farchnad i sicrhau darpariaeth lawn yn y DU ar yr un pryd â lleihau effeithiau negyddol ar gystadleuaeth. Bydd cymhorthdal cyhoeddus yn cael ei dargedu i gyfyngu ar y risg o allwthio buddsoddiad preifat, newid cymhellion buddsoddi masnachol ac, yn y pen draw, ystumio cystadleuaeth. Bydd prosiectau'n parhau i gael eu caffael o dan Reoliadau Contractau Cyhoeddus (2020), i helpu i fodloni ein gofynion rheoli cymorthdaliadau.

Caiff cyflenwyr gyfle yn ystod y camau OMR ac Adolygiad Cyhoeddus, i rannu â Llywodraeth Cymru unrhyw gynlluniau buddsoddi cadarn a chredadwy a allai olygu na fydd cyfiawnhad dros gymhorthdal cyhoeddus.

**Gofyn am adolygiad o ddyfarniad cymhorthdal**

Dan ofynion rheoli cymhorthdal y DU, gall unrhyw un ofyn am adolygiad ynghylch dyfarnu cymhorthdal. Rhaid cyflwyno ceisiadau ddim hwyrach na mis o ddyddiad dyfarnu'r cymhorthdal. Bydd y cymhorthdal yn cael ei ddyfarnu ar ôl dyfarnu'r contract a chaffael a bydd Canolfan Cymhwysedd Genedlaethol BDUK yn ystyried ceisiadau a gyflwynir o fewn y cyfnod o fis, o dan delerau'r TCA.

Bydd y dyfarniad arfaethedig hwn yn cael ei gyhoeddi gan yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS). Bydd y broses ar gyfer gwneud cais o'r fath yn cael ei chyhoeddi yma hefyd.

Mae gwybodaeth am drefn Rheoli Cymhorthdal y DU ar gael ar wefan Llywodraeth y DU: https://www.gov.uk/government/news/government-sets-out-plans-for-new-approach-to-subsidy-control

## Atodiad F: Geirfa

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| Building Digital UK (BDUK) | Rhan o'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon sy’n gyfrifol am gyllid cyhoeddus Llywodraeth y DU i helpu i ddarparu gwell cysylltedd symudol a band eang i’r DU. |
| Du | Ardaloedd (neu adeiladau) du yw’r rheini lle mae o leiaf ddau rwydwaith gan wahanol weithredwyr yn bodoli neu am gael eu defnyddio yn ystod y tair blynedd nesaf. |
| FTTC - Cysylltiad Ffeibr i’r Cabinet | Mae ceblau ffeibr optig yn rhedeg o’r gyfnewidfa ffôn i gabinet stryd cyfagos cyn defnyddio’r gwifrau ffôn copr presennol i gysylltu’r pellter sy’n weddill â phob adeilad. |
| FTTP - Cysylltiad Ffeibr i’r Adeilad | Dyma lle mae’r ffeibr optig yn rhedeg yn uniongyrchol i bob safle er mwyn cael cysylltiad â’r rhyngrwyd mewn ffordd sy'n addas ar gyfer y dyfodol. Fel arfer, mae’r cyflymderau sy'n cael eu cynnig dros yr FTTP hyd at 1 gigabit yr eiliad (1,000Mb yr eiliad). |
| Gbps | Gigabit yr eiliad. |
| Yn gallu delio â gigabits | Cyflymder lawrlwytho Gigabit o leiaf gigabit yr eiliad (1,000Mbps) yn cael ei ddarparu ar draws y rhwydwaith fel sy’n cael ei ddiffinio yn Atodiad C. |
| Llwyd | Ardaloedd (neu adeiladau) llwyd yw’r rheini lle mai dim ond un rhwydwaith sy’n bresennol neu a fydd yn cael ei ddefnyddio yn ystod y tair blynedd nesaf. |
| Mbp yr eiliad | Megabit yr eiliad. |
| Y Ganolfan Cymhwysedd Genedlaethol (NCC) | mae’n golygu Broadband Delivery UK (BDUK) yn gweithredu yn ei gapasiti fel canolfan cymhwysedd cenedlaethol (NCC) gyda chyfrifoldebau sy’n cynnwys cydlynu’n ganolog agweddau rheoli cymhorthdal seilwaith band eang |
| Band Eang Mynediad y Genhedlaeth Nesaf | Rhwydweithiau sydd â’r nodweddion canlynol: (i) darparu gwasanaethau’n ddibynadwy ar gyflymder uchel iawn fesul tanysgrifiwr drwy ôl-gludo optegol (neu dechnoleg gyfatebol) sy’n ddigon agos at adeiladau defnyddwyr i warantu cyflenwi’r cyflymder uchel iawn; (ii) cefnogi amrywiaeth o wasanaethau digidol uwch, gan gynnwys gwasanaethau IP cyflawn cyfunol; a (iii) cael cyflymder lanlwytho sylweddol uwch (o’i gymharu â rhwydweithiau band eang sylfaenol). Yn y cyd-destun hwn, rhaid i rwydweithiau band eang Mynediad y Genhedlaeth Nesaf fod yn gallu darparu cyflymderau llinell mynediad o 30Mbps o leiaf. |
| Ofcom | yr awdurdod rheoleiddio cenedlaethol ar gyfer y diwydiannau telathrebu yn y Deyrnas Unedig. |
| Adolygiad o'r Farchnad Agored | Cynhaliwyd ymarferiad gyda’r farchnad i bennu faint o ddisgwyl sydd i'r sector preifat ddefnyddio band eang Mynediad y Genhedlaeth Nesaf, er mwyn gwybod pa ardaloedd sydd heb unrhyw seilwaith band eang cymwys neu lle nad oes cynlluniau i ddarparu seilwaith o’r fath dros y tair blynedd nesaf. |

| | |
|---|---|
| Gwibgyswllt | Cyflymder llwytho i lawr gwibgyswllt o 300Mbps o leiaf wedi'i ddarparu ar draws y rhwydwaith. |
| Dan Adolygiad | Ardaloedd lle mae cyflenwyr wedi nodi darpariaeth band eang wedi'i chynllunio, ond mae'r cynlluniau hynny wedi cael eu barnu drwy broses yr Adolygiad fel rhai a allai fod mewn perygl o beidio â chael eu cwblhau. Felly, bydd yn rhaid monitro a dilysu cynlluniau adeiladu cyflenwyr yn barhaus yn ystod cyfnod o dair blynedd er mwyn sicrhau bod cynnydd sylweddol yn cael ei wneud o ran defnyddio'r rhwydwaith. Os bydd cynlluniau adeiladu cyflenwr yn diflannu, byddai unrhyw safle sy'n cael ei ystyried 'dan adolygiad' yn cael ei fapio fel un gwyn ac felly gallai fod yn rhan o unrhyw Ardal Ymyrryd arfaethedig yn y dyfodol. |
| Cyfeirnod Unigryw'r Eiddo | Cod adnabod unigryw ar gyfer pob cyfeiriad ym Mhrydain. Mae'n darparu cod adnabod cynhwysfawr, cyflawn a chyson drwy gydol oes eiddo – o'r caniatâd cynllunio hyd at ei ddymchwel. |
| Gwyn | Ardaloedd (neu adeiladau) gwyn yw'r rheini lle nad oes seilwaith band eang cymwys, ac nad oes yr un yn debygol o gael ei ddatblygu o fewn tair blynedd. |